

Dyddiadau Allweddol

Digwyddiad	Nifer y dyddiau gwaith cyn yr etholiad (amser cau os nad yw'n ganol nos)	Dyddiad (amser cau os nad yw'n ganol nos)
Cyhoeddi hysbysiad o etholiad	Heb fod yn fwy na 25 o ddiwrnodau	Dydd Llun 29 Mawrth fan bellaf
Cyflwyno papurau enwebu	Rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad tan 4pm ar y 19eg diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio	Rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad a than 4pm ddydd Iau 8 Ebrill
Y dyddiad cau ar gyfer dosbarthu papurau enwebu	19 diwrnod (4pm)	4pm ddydd Iau 8 Ebrill
Gwneud gwrthwynebiadau i'r papurau enwebu	19 diwrnod (rhwng 10am a 5pm) yn amodol ar y canlynol: Rhwng 10am a 12 canol dydd, gellir gwneud gwrthwynebiadau i bob enwebiad a ddosbarthwyd. Rhwng 12 canol dydd a 5pm dim ond i enwebiadau a ddosbarthwyd ar ôl 4pm, 20 diwrnod cyn yr etholiad y gellir gwneud gwrthwynebiadau	Rhwng 10am a 12 canol dydd, ddydd Iau 8 Ebrill, gellir gwneud gwrthwynebiadau i bob enwebiad a ddosbarthwyd. Rhwng 12 canol dydd a 5pm ddydd Iau, 8 Ebrill dim ond i enwebiadau a ddosbarthwyd ar ôl 4pm ddydd Mercher 7 Ebrill y gellir gwneud gwrthwynebiadau
Y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl	19 diwrnod (4pm)	4pm ddydd Iau 8 Ebrill
Y dyddiad cau ar gyfer hysbysu y penodwyd asiant etholiadol	19 diwrnod (4pm)	4pm ddydd Iau 8 Ebrill
Cyhoeddi'r hysbysiad interim cyntaf o newid i etholiad	19 diwrnod	Dydd Iau 8 Ebrill
Cyhoeddi datganiad am y sawl a enwebwyd	Dim hwyrach na 18 diwrnod (4pm)	Dim hwyrach na 4pm ddydd Gwener 9 Ebrill
Cyhoeddi datganiad am y sawl a enwebwyd gan gynnwys hysbysiad o bleidlais a lleoliad y gorsafodd pleidleisio	Dim hwyrach na 18 diwrnod (4pm)	Dim hwyrach na 4pm ddydd Gwener 9 Ebrill

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i gofrestru	12 diwrnod	Dydd Llun 19 Ebrill
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau newydd am bleidlais bost a phleidlais drwy ddirprwy drwy'r post, ac am newidiadau i bleidleisiau post neu bleidleisiau drwy ddirprwy sy'n bodoli eisoes	11 diwrnod (5pm)	5pm ddydd Mawrth 27 Ebrill
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau newydd i bleidleisio drwy ddirprwy (nid pleidlais drwy ddirprwy drwy'r post na phleidlais argyfwng drwy ddirprwy)	6 diwrnod (5pm)	5pm ddydd Mawrth 27 Ebrill
Cyhoeddi'r ail hysbysiad interim o newid i etholiad	Rhwng 18 diwrnod a 6 diwrnod	Rhwng dydd Gwener 9 Ebrill a dydd Mawrth 27 Ebrill (yn gynwysedig)
Cyhoeddi'r hysbysiad olaf o newid i etholiad	5 diwrnod	Dydd Mercher 28 Ebrill
Y dyddiad cau ar gyfer hysbysu bod asiantiaid pleidleisio, asiantiaid cyfrif ac is-asiantiaid wedi'u penodi	5 diwrnod	Dydd Mercher 28 Ebrill
Y diwrnod cyntaf y gall etholwyr wneud cais am bleidlais post newydd yn lle pleidlais bost a gollwyd	4 diwrnod	Dydd Iau 29 Ebrill
Diwrnod pleidleisio	0 (7am i10pm)	Rhwng 7am a 10pm ddydd Iau 6 Mai
Yr amser olaf gall etholwyr wneud cais am bleidlais bost newydd yn lle pleidlais bost a ddifethwyd neu a gollwyd	0 (5pm)	5pm ddydd Iau 6 Mai
Y dyddiad cau am geisiadau am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy	0 (5pm)	5pm ddydd Iau 6 Mai
Y tro olaf y gellir newid y gofrestr o ganlyniad i wall clerigol neu apêl gan y llys	0 (9pm)	9pm ddydd Iau 6 Mai

Mae gwybodaeth yn ymwneud â **phleidleiswyr cymwys** a'r **systemau etholiadol** ar gael ar dudalen gwefan **Etholiadau Senedd Cymru**.

Sesiwn Wybodaeth i Ymgeiswyr ac Asiantiaid (Etholiadau Etholaethol a Rhanbarthol)

Cynhelir y Sesiwn Wybodaeth gyntaf i Ymgeiswyr ac Asiantiaid o bell ar DYDDIAD 2021 am AMSER.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â ni drwy e-bost electoralservices@blaenau-gwent.gov.uk

Gwiriadau anffurfiol ar Bapurau Enwebu (Etholiadau Etholaethol a Rhanbarthol)

Byddwn yn cynnig gwiriadau anffurfiol i Ymgeiswyr am eu papur enwebu. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn y dyfodol agos.

Canllawiau ac adnoddau ar gyfer ymgeiswyr a'u hasiantiaid (Etholiadau Etholaethol a Rhanbarthol)

Mae gan y [Comisiwn Etholiadol](#) wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i chi os ydych yn ystyried sefyll yn yr etholiad.

Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn y dyfodol agos yng nghyswllt y pecynnau enwebu, sesiynau agor pleidleisiau post, gweithdrefnau dilysu a chyfrif ac yn y blaen.